

Sut mae mynd yn Ofalwr yn y Fro?

- 1 Pan fyddwch yn cysylltu â ni, byddwn yn gofyn am ychydig o fanylion sylfaenol ac yna'n anfon gwybodaeth atoch i'w darllen.
- 2 Os ydych wedi penderfynu bwrw ymlaen â'ch cais, byddwn yn trefnu i gyfarfod â chi er mwyn i chi gael ystyried a ydych yn gwneud y peth iawn ai peidio wrth fynd i faethu.
- 3 Gofynnwn wedyn i chi ddilyn cwrs hyfforddi lle cewch gyfarfod â phobl eraill sy'n dysgu bod yn ofalwyr maeth, a dysgu am ddatblygiad plant a ffyrdd o reoli eu hymddygiad sy'n hanfodol i'r broses o faethu.
- 4 Byddwn yn archwilio eich iechyd ac yn trefnu i'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol eich archwilio er mwyn sicrhau eich bod yn addas i weithio gyda phlant.
- 5 Un o weithwyr y tîm fydd yn gyfrifol am eich asesu a bydd y broses fel arfer yn cymryd rhwng 3 a 6 mis.
- 6 Bydd yr asesiad yn cynnwys cyfweiliadau â chi a'ch teulu a'ch ffrindiau a byddwn hefyd yn asesu eich sgiliau.
- 7 Byddwn yn llunio adroddiad ysgrifenedig ar yr asesiad a'i gyflwyno i banel annibynnol a fydd yn argymhell derbyn neu wrthod eich cais.
- 8 Gall yr holl gamau hyn gymryd cryn dipyn o amser. Serch hynny, mae'n bwysig i ni deimlo ein bod yn eich adnabod yn ddigon da i allu lleoli plant gyda chi ac i chithau deimlo'n ddigon hyderus a pharod i ddechrau maethu.

Felly beth am gysylltu â ni?

E-bost: fostercare@valeofglamorgan.gov.uk

Gwefan:

www.valeofglamorgan.gov.uk/fostercare

Cewch gyfle i sgwrsio'n anffurfiol â ni wedyn a dysgu mwy am faethu cyn dod i benderfyniad.

Pam mynd yn Ofalwr Maeth yn y Fro?

- Byddwn yn cynnig cyfradd dalu gystadleuol iawn drwy ein cynllun "Tâl am Sgiliau", sy'n golygu y cewch ddilyn gyrfa faethu amser llawn os mynnwch, neu aros yn eich swydd bresennol a maethu'n rhan-amser yn unig.
- Bydd y tîm maethu a'n tîm arbenigol sy'n cynnwys seicolegydd addysg, pediatregydd, niysys ac athro anghenion arbennig yn cynnig pob math o gymorth.
- Caiff pob gofalwr fanteisio ar gynllun benthyca ceir ar gyfradd llog arbennig o isel.
- Caiff pob gofalwr newydd gyfrifiadur personol wedi'i gysylltu a hefyd linell gymorth TG yn rhad ac am ddim.
- Bydd cefnogaeth i'w chael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn.
- Mae gennym becyn hyfforddi rhagorol sy'n cynnwys CGC Lefel 3.
- Byddwn yn cynnal cynlluniau cefnogi'n ystod yr haf sy'n cynnig gofal seibiant ar ffurf gwibdeithiau undydd a drefnir drwy gydol y gwyliau.
- Cewch oruchwyliaeth broffesiynol o leiaf unwaith y mis.

Os hoffech gael y daflen hon mewn iaith arall neu Braille mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gwnewch y Gwahaniaeth Maethwch Fro ar gyfer y



www.valeofglamorgan.gov.uk/fostercare

Vale of Glamorgan Council Fostering Team

Make the Difference Foster for the Vale

How do you become a Vale Carer?

- 1 When you contact us, you will be asked for some basic details, and we will then send you information through the post to read.
- 2 If you wish to continue, we will arrange to meet with you to give you the opportunity to find out whether fostering is right for you.
- 3 You will then be asked to attend training, where you will meet other people going through the process of becoming a foster carer and learn about the basics of fostering such as managing children's behaviour and child development.
- 4 Police, Health and Local Authority checks will be made to ensure that you are suitable to work with children.
- 5 A worker from the team will be assigned to undertake your assessment, which takes on average 3 to 6 months.
- 6 The assessment will include interviews with yourself, your family and friends and will also involve an assessment of your skills.
- 7 The assessment will be written up into a report and presented to an independent panel who recommend on whether you are approved or not.
- 8 All of these steps can take some time. We need to feel that we know you well enough to place children with you and you need to feel confident and prepared enough before you begin fostering.

Why not contact us on:

E-mail: fostercare@valeofglamorgan.gov.uk

Or visit our website at:

www.valeofglamorgan.gov.uk/fostercare

You can chat informally and gain more information before making a decision.

Reasons to become a Vale Foster Carer

- We offer a very competitive rate of pay through our "Payment for Skills" scheme, which allows you to choose fostering as a full time career if you wish, or to continue working and still foster.
- Comprehensive support from both the fostering team and our specialised team, which includes an educational psychologist, paediatrician, nurses and a special needs teacher.
- A very low interest rate car loan scheme, open to all carers.
- A free PC to every new carer with free installation and a free IT support helpline.
- 24 hours a day support, 7 days a week, 52 weeks a year.
- An excellent training package including NVQ Level 3.
- Summer support schemes that provide respite through day trips throughout the summer holidays.
- A minimum of monthly professional supervision.

Should you require this leaflet in another language or braille, please contact us.

Make the Difference
Foster Vale
for the Vale



Gwnewch y Gwahaniaeth
Maethwch Fro
ar gyfer y Fro

www.valeofglamorgan.gov.uk/fostercare

Tim Maethu Cyngor Bro Morgannwg